

CaBan

Llawlyfr y Modiwl
XCC-2210
BA Blwyddyn 2
Profiad Ysgol

BA CABAN Profiad Ysgol

XCC/XCE 2210

Mae profiad ysgol yn rhan hanfodol o holl gyrsiau addysg gychwynnol athrawon. Mae'r modiwl hwn yn gyfle i chi arsylwi dysgwyr ac athrawon yn yr ysgol, rhoi cynnig ar syniadau a phrofiadau proffesiynol newydd ac, yn bwysicaf oll, adfyfyrio ar eich ymarfer eich hun a'i wella.

Bydd y rhan fwyaf o leoliad blwyddyn 2 gyda blynyddoedd 3-6. Bydd y rhai sy'n cael lleoliad blwyddyn derbyn - blwyddyn 2 yn cael eu lleoli ym mlynyddoedd 3-6 ym Mlwyddyn 3 y rhaglen.

Bydd addysgeg eich lleoliad Blwyddyn 2 yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, ni waeth beth fo'ch grŵp blwyddyn.

Amcanion a phwrpas cyffredinol

Bydd y modiwl hwn yn:

- Rhoi cefnogaeth i chi ddatblygu ystod o sgiliau yn annibynnol (gan gynnwys cryfhau eich gwybodaeth o'r Gymraeg i hyrwyddo 'Cymraeg Pob Dydd') ac ymarfer adfyfyriol i fodloni gofynion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (PSTL) i ddod yn athro cymwysedig a chyfrannu at y gymuned ddysgu;
- Sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o sut mae cymhwyso gwybodaeth ac ymarfer adfyfyriol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i ddysgwyr;
- Rhoi cefnogaeth i chi adnabod ystod eang o dechnegau'n annibynnol, er mwy adfyfyrio'n feirniadol ynghylch eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymdoddi i amgylchedd yr ysgol;
- Rhoi cyfleoedd i chi ddatblygu dealltwriaeth o gynnwys, egwyddorion a ffocws eich modiwlau Blwyddyn 2 eraill yn eu cyd-destun.

Cynnwys y Modiwl

Byddwch yn treulio 58 niwrnod mewn ysgol i ddechrau dysgu sut mae dod yn ymarferwyr trwy'r profiadau a enillwch mewn ysgolion arweiniol ac ysgolion rhwydwaith, Bydd hynny'n cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr
- arsylwadau a datblygiad paratoadol
- ymchwil agos at ymarfer (ymchwiliadau ar raddfa fach)
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu
- mentora a hunan-adfyfyrio

Bydd seminarau a gweithgareddau yn ystod y diwrnodau yn yr Ysgol Arweiniol a'r sefydliad addysg uwch yn cysylltu'n agos â chynnwys pob un o fodiwlau'r ail flwyddyn ac yn adeiladu ar eich profiadau ym mlwyddyn 1

- Cam 2: Integreiddio (SAU, Ysgolion Arweiniol ac Ysgolion Rhwydwaith)
- Cam 3: Datblygu (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth yr Ysgolion Arweiniol a SAU)
- Cam 4: Ymarfer a gweithredu (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth Ysgolion Arweiniol a SAU)
- Cam 5: Ôl-drafod ac adfyfyrio (SAU ac Ysgolion Arweiniol)

Bydd y camau hyn yn cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr;
- arsylwadau a datblygiad paratoadol;
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu;
- ymarfer a gweithredu sgiliau lefel uwch;
- mentora ac adfyfyrio;

Asesu

Yn ystod y modiwl byddwch yn adfyfyrio'n barhaus ar eich cynnydd gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor ac yn uwchlwytho'r dystiolaeth berthnasol i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP). Ar ddiwedd y modiwl, byddwch yn dangos eich bod wedi gwneud cynnydd boddhaol yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Yn achos y modiwl hwn, caiff llwyddo neu fethu ei gofnodi yn y bwrdd arholi gan ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (PSTL). Mae'r holl fanylion asesu yn erbyn y PSTL wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Asesu PSTL ac mae manylion am sut i ddefnyddio'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP) ar gael ar-lein.

Deilliannau dysgu

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn gallu:

Datblygu ymhellach ystod o sgiliau cynllunio ac asesu i sicrhau cyfleoedd addas i ddysgwyr ddatblygu sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm, themâu trawsgwricwlaidd ac astudiaethau ar sail pwnc;

Dadansoddi a chloriannu eich ymarfer proffesiynol a dechrau dangos y gallu i gydweithio a sefydlu perthynas broffesiynol gyda mentoriaid/tiwtoriaid yn sail ar gyfer datblygu'n annibynnol;

Adfyfyrio'n effeithiol ar eich cynnydd mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;

Gosod targedau priodol ar y cyd i weithio tuag at y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, a dechrau eu cyflawni.

Cymraeg Bob Dydd a'r Cwricwlwm Cymreig

Tra byddwch ar Brofiad Ysgol, bydd disgwyl i chi hyrwyddo'r defnydd o *Gymraeg Bob Dydd* pryd bynnag a lle bynnag y bo modd, ar draws y cwricwlwm. Dylid defnyddio'r Gymraeg (Cymraeg Bob Dydd) yn naturiol fel ei bod yn rhan annatod o weithgareddau / arferion yr ystafell ddosbarth / yr ysgol gyfan.

Byddwch hefyd yn dechrau cynnwys pum prif agwedd y Cwricwlwm Cymreig mewn pynciau ac yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad o fewn eich gwersi.

Cynnydd mewn Dwyieithrwydd

Byddwch yn parhau i astudio dwyieithrwydd yng nghyd-destun y Cwricwlwm Cymreig, a'r gwahanol ffyrdd y mae hyn yn cael sylw yn y gwahanol fathau o ysgolion (cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg). Byddwch hefyd yn astudio nodau ac amcanion addysg ddwyieithog o wahanol safbwyntiau, yn ystyried addysg Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) ac yn edrych ar y materion penodol sy'n gysylltiedig ag asesu disgyblion dwyieithog. Ar ôl hynny, byddwch yn ystyried y deilliannau disgwylidiedig a realistig ar gyfer gwahanol fathau o ddisgyblion ddwyieithog. Byddwch yn dod i wybod am y polisiau iaith sydd ar waith mewn ysgolion, a strategaethau penodol sy'n cael eu cynnwys yn y cwricwlwm i roi sylw i sgiliau iaith dysgwyr, a dod i ddeall y rhain. **Y Dyddlyfr Proffesiynol**

Trwy gydol y modiwl bydd gennych lawer o gyfleoedd i arsylwi, ymarfer ac adfyfyrio. Byddwch yn cadw nodiadau ymchwil mewn dyddlyfr proffesiynol sydd wedi'i lunio i gefnogi'ch cynnydd fel athro cyswllt newydd.

Arsylwi ac adfyfyrio


Yn ogystal â'r cyflwyniad cychwynnol i addysgu effeithiol, bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddwy sgil ymchwil hanfodol i ymarferwyr: arsylwi ac adfyfyrio. Byddwch yn defnyddio'r cwestiynau hyn i lunio eich adfyfyrdod ar eich ymarfer eich hun yn ogystal â'ch arsylwadau o eraill:

- *Beth wnaeth y disgyblion mewn gwirionedd?*
- *Beth oeddent yn ei ddysgu?*
- *Pa mor fuddiol oedd hynny?*
- *Beth wnes i? (Beth wnaeth yr athro/athrawes?)*
- *Beth wnes i ei ddysgu?*
- *Beth ydw i'n bwriadu ei wneud nesaf?*

(Ebbutt, 1985, in Hopkins, D., 2014. *A teacher's guide to classroom research*. London, UK: McGraw-Hill Education).

Yr ail offeryn dadansoddol a ddefnyddir i ddadansoddi cyd-destun cymhleth ymarfer dosbarth fydd y Craidd Cyfarwyddol (City, E.A., Elmore, R.F., Fiarman, S.E. and Teitel, L., 2009. *Instructional rounds in education*. Cambridge, MA: Harvard Education Press.

http://www.macombfsi.net/uploads/1/5/4/4/1544586/instructional_rounds_-_principles.pdf



Ffig. 2 The Instructional Core (ar sail City et al, 2009 p23)

Efallai y cewch gyfle, ochr yn ochr â'ch mentor, i ddefnyddio dull Astudiaeth Gwers (Cajkler et al., 2013).

Cajkler, W., Wood, P., Norton, J. and Pedder, D., 2013. Lesson study: towards a collaborative approach to learning in initial teacher education. *Cambridge Journal of Education*, 43(4), pp.537-554.

Astudiaeth Gwers

Amcanion

- i **AC** gyd-gynllunio gydag athrawon arbenigol mewn cyd-destun;
- i **fentoriaid** ac **AC** arsylwi a dadansoddi'r dysgu;
- i nodi goblygiadau ar gyfer addysgeg pwnc benodol.


Mae **tiwtoriaid** yn hyfforddi mentoriaid ac **AC** i ddefnyddio'r cylch Astudiaeth Gwers. Maent yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar arsylwi dysgu (nid strategaethau addysgu nac ymddygiad) ac maent yn pwysleisio cyd-barch er mwyn osgoi peri pryder i'r **AC**.

Addysgir y wers ddiwygiedig gan yr **AC** i ddosbarth gwahanol (gall hyn fod yn broblematig mewn rhai achosion) a bydd y dysgwyr yn cael eu harsylwi gan y **mentor**. Yna caiff y wers ei dadansoddi er mwyn cychwyn y cylch ymchwil nesaf.

Mae'r **mentor** a'r **AC** yn gwerthuso'r wers gan ddefnyddio'r nodiadau a'r fideo. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y dysgu; ni fwriedir i'r **mentor** fodelu strategaethau addysgu da i'w dynwared gan yr **AC**. Mae'r wers wreiddiol yn cael ei mireinio o ganlyniad i'r dadansoddiad o ddysgu'r myfyrwyr achos.

Bydd y **mentor** ac **AC** yn adnabod rhwystr benodol sydd gan eu dysgwyr gydag agwedd o'r pwnc dan sylw. Ar ôl i'r ffocws a'r dysgwyr targed gael eu dewis, mae'r mentor a'r **AC** yn cynllunio'r wers ymchwil yn fanwl, gan ganolbwyntio ar y deilliannau dysgu arfaethedig ar gyfer y dosbarth cyfan ond gyda sylw ychwanegol i anghenion tri disgybl a ddewiswyd.

Addysgir y wers gyntaf gan y **mentor**, yr ymarferydd arbenigol, tra bo'r **AC** yn arsylwi dysgu'r tri dysgwr a bennwyd. Cymerir nodiadau manwl gan yr **AC** a chaiff dadansoddiad dilynol o'r wers ymchwil ei hwyluso gan recordiad fideo.



Ddarpariaeth Y cyfarfod **mentor** cyntaf gyda mewnbwn y **tiwtor** (bydd mentoriaid yn datblygu annibyniaeth dros amser)

Amser Tiwtor Awr o gyfarfod yn yr ysgol gyda'r mentor a'r **AT**.

Amser Mentor Cyfarfod cychwynol gyda'r arsylwi a'r adolygu dilynol yn ystod cyfarfodydd mentoriaid.

Sail ddamcaniaethol

Dangoswyd bod astudiaeth gwers (Lewis, 2000) yn annog ac yn datblygu cydweithredu o fewn cymunedau dysgu proffesiynol. Mae addasu'r model i AGA yn awgrymu bod astudio gwersi yn offeryn effeithiol ar gyfer datblygu **mentoriaid** yn ogystal â chyflymu cynnydd **AC** (Cajkler et al., 2013).

Mae'r pedwerydd offeryn adfyfyril hefyd yn set o gwestiynau; y tro hwn fe'u dosberthir yn ôl pedwar gwahanol fath o wybodaeth a elwir yn **Pedwarawd Gwybodaeth** (Rowland et al. 2005). Dangosir hwn ar y dudalen nesaf.

Gwybodaeth sylfaen	Gwybodaeth drawsnewid
<p>Beth wnaeth yr addysgu a'r dysgu yn y wers hon ei ddatgelu am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wybodaeth bwnc yr athro; • eu gwybodaeth o'r cwricwlwm; • eu daliadau ynghylch natur y pwnc; • eu daliadau ynghylch addysgu a dysgu; • eu gwybodaeth am y disgyblion? 	<p>Pa weithgareddau athro (arddangosiadau, gwaith ymarferol, deunyddiau hyfforddi ac asesu) a ddefnyddiwyd gan yr athro i hwyluso dysgu'r disgyblion?</p> <p>Pam y gwnaethant ddewis y dulliau hyn?</p> <p>A oedd yn glir i ddisgyblion beth yr oeddent i fod i'w wneud, pam roeddent yn ei wneud a beth fyddent yn ei ddysgu?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gefnogi'r disgyblion i ddeall cysyniadau?</p> <p>Beth wnaeth helpu'r disgyblion i ddysgu? (Pryd wnaeth y disgyblion ddysgu fwyaf yn ystod y wers?)</p>
Gwybodaeth gyswllt	Gwybodaeth wrth gefn
<p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau rhwng gweithgareddau <u>yn ystod y wers</u>?</p> <p>Sut wnaeth yr athro sicrhau dilyniant rhesymegol o weithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau â dysgu blaenorol a dysgu i ddod?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r amcanion dysgu â'r gweithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r gweithgareddau â'r cwricwlwm?</p>	<p>Sut yr ymatebodd yr athro i syniadau myfyrwyr?</p> <p>A oedd achosion o ddigwyddiadau heb eu cynllunio yn digwydd: e.e. myfyriwr yn gofyn cwestiwn annisgwyl, diffyg adnoddau neu rywbeth 'yn mynd o'i le'? Os felly, beth oeddent a beth oedd eu harwyddocâd?</p> <p>Sut wnaeth yr athro ymateb / ymdopi?</p>
<p>Cyfrifoldebau Proffesiynol</p> <p>Yn ystod eich lleoliad ysgol, dylech gwblhau'r gweithgareddau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynd gydag athro ar ddyletswydd un diwrnod yr wythnos. • Cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol y dosbarth dan arweiniad y mentor neu'r tiwtor dosbarth • Paratoi arddangosfa o waith y plant 	<p>Gofynion Cyfreithiol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael copi o bolisi'r ysgol ar Amddiffyn Plant, Gwrth-fwlio, Disgyblaeth ac Atal (gall hwnnw fod yn gopi electronig neu'n gopi caled). • Sicrhau eich bod yn llenwi'r dudalen diogelu plant ar gyfer yr ysgol arweiniol a'r ysgol rwydwaith yn eich dyddlyfr proffesiynol. • Darllenwch y cod ymddygiad proffesiynol ar-lein cyn i'r lleoliad ddechrau, a chwblhewch y tabl yn eich dyddlyfr proffesiynol

Wyth Cam Datblygiad AC Caban

Cam 1

Ffocws: Dechrau deall sut y cynllunnir ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac ar wahanol gamau datblygu (datblygiad cyfannol) - cefnogi asesu
Byddwch wedi cwblhau cam 1 ym Mlwyddyn 1

Cam 2

Ffocws: Cyfnerthu ac adeiladu ar flwyddyn 1. Datblygu cynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (blynyddoedd 3-6) a rheoli ymddygiad a dysgu. Dechrau deall asesu a'i effaith ar ddysgu disgyblion.

Datblygu ymarfer: Addysgu micro / addysgu fel tîm / addysgu fesul cam dan arweiniad mentor (hyd at 40%)

Cam 3

Ffocws: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol)/canolbwyntio ar gynllunio tymor byr. Dechrau nodi ffyrdd y gellir ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a datblygu ymwybyddiaeth o addysgeg pwnc-benodol (Astudiaethau Pwnc 1.1, Llythrennedd a Rhifedd). Adnabod y sgiliau llythrennedd a rhifedd personol sydd angen eu datblygu

Datblygu ymarfer: symud ymlaen fel bo'n briodol o ficro ddysgu/addysgu fel tîm i fwy o annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 3-5 awr o wersi).

Cam 4

Ffocws: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu (datblygiad cyfannol).

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 8 awr o wersi).

Cam 5 (mewn SAU - yn dilyn ymarfer)

Ffocws: Trafod ac adfyfrio ar ail brofiad ysgol

Cam 6 (Blwyddyn 3)

Ffocws: Arsylwi beirniadol ar ymarfer effeithiol. Cynllunio ac addysgu mewn cyd-destun newydd.

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth gynyddol a gwersi cyflawn (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 12 awr o wersi).

Datblygu arbenigedd mewn dulliau ymchwil (ymchwil weithredol a dulliau casglu data pellach).

Camau 7 – 8

Bydd y rhain yn cael eu datblygu ym Mlwyddyn 3

Amserlen profiad ysgol

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos cynllun manwl wyth cam y Modiwl Profiad Ysgol

Lleoliad	Byrfoddau	
Ysgol arweiniol	MARh - Mentor Arweiniol y Rhwydwaith	PF - Prif Fentor
Ysgol rwydwaith	MY - Mentor Ysgol	FfAA - Ffurflen Asesu Addysgeg
Sefydliad addysg uwch	APY - Adroddiad Profiad Ysgol	MDaPh - Maes Dysgu a Phrofiad

DS Ar y tudalennau canlynol, mae gweithgareddau wedi'u cynllunio i hwyluso a strwythuro arsylwi ac adfyfrio gan athrawon cyswllt. Awgrymiadau yw'r drefn a'r amseru a ddangosir, ac efallai y bydd yr ysgol, yr adran a'r mentor eisiau ad-drefnu'r gweithgareddau i gyd-fynd â'u hanghenion.

Cadw pellter cymdeithasol oherwydd Covid-19

Enghreifftiau'n unig yw'r tudalennau canlynol, a gall hyd ac amseriad y lleoliad amrywio, yn dibynnu ar bolisïau'r Brifysgol, yr Ysgol a'r Llywodraeth.

Sylwch y gall pob diwrnod ysgol arweiniol a SAU newid oherwydd yr ansicrwydd o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.

Ar y tudalennau canlynol, gellir cyflwyno unrhyw weithgareddau a nodwyd ar gyfer cyflwyniadau/ lleoliad Ysgol Arweiniol ac Ysgol Rwydwaith ar-lein, a bydd disgwyl i chi aros yn eich ysgol arweiniol neu rwydwaith neu weithio gartref ar y dyddiau hyn.

Gellir cyflwyno diwrnodau SAU mewn grwpiau seminar bach lle gellir cadw pellter cymdeithasol, trwy Skype, Teams neu Zoom, neu mewn fforymau trafod ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein. Bydd manylion am y ffurf a'r lleoliadau yn cael eu rhannu gyda phob un ohonoch mewn da bryd.

Gall cynnwys seminarau'r SAU a'r Ysgol Arweiniol fod yn wahanol i'r hyn a fanylir yn y llawlyfr hwn; edrychwch ar Blackboard a chadwch olwg am y cyhoeddiadau diweddaraf.

Wythnos 1 Yr wythnos gyntaf yn yr ysgol rwydwaith (Cam 2) Cyflwyniad ac arsylwi

DS: Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor. Enghraifft yw'r amserlen hon.

Diwrnod 1	Diwrnod 2	Diwrnod 3	Diwrnod 4	Diwrnod 5
<p>Croeso gan y Pennaeth a diogelu hanfodol (PF)</p> <p>Athrawon cyswllt yn arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafaredd/sgwrsio (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Ffocws ar gyfathrebu (gan gynnwys <i>Cymraeg bob dydd/gloywi iaith</i>)</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob diwrnod bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi, mewn parau lle bo hynny'n briodol, gan ddefnyddio'r Craidd Cyfarwyddol fel canolbwynt.</p>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafaredd/sgwrsio (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Ffocws ar gyfathrebu (gan gynnwys <i>Cymraeg bob dydd/gloywi iaith</i>)</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob diwrnod bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi, gan ddefnyddio'r Craidd Cyfarwyddol fel canolbwynt.</p>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi dosbarth cyfan gan ganolbwyntio ar lafaredd/sgwrsio (sgwrs athro, sgwrs disgyblion a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion).</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Ffocws ar gyfathrebu (gan gynnwys <i>Cymraeg bob dydd/gloywi iaith</i>)</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob diwrnod bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi, gan ddefnyddio'r Craidd Cyfarwyddol fel canolbwynt.</p>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi grŵp bach gan ganolbwyntio ar sgiliau llythrennedd ehangach (darllen ac ysgrifennu) a chanolbwyntio'n fanylach ar sgwrs disgybl-disgybl.</p> <p>Parhau i nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Adfyfrio estynedig yn unigol (os yw COVID yn caniatáu mewn parau neu driawd.)</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth wnaethoch sylwi arno? Ceisiais addysgu hyn - beth ddigwyddodd? Sut oedd y disgyblion yn siarad? Beth wnaethon nhw mewn grwpiau? Sut wnaethon nhw ryngweithio? <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob diwrnod bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi, gan ddefnyddio'r Craidd Cyfarwyddol fel canolbwynt.</p> <div data-bbox="1160 957 1729 1252" style="border: 1px solid black; padding: 5px; background-color: #e6f2ff;"> <p>Cyfrifoldebau mentoriaid</p> <p>Cyflwyniad i'r cyfnod a'r dosbarth</p> <p>Ystyriaethau ymarferol (lle cedwir pethau ac ati)</p> <p>Dulliau o weithio</p> <p>Rhoi sylw i faterion lechyd a Diogelwch yn ôl yr angen</p> <p>Adolygu'r tridiau cyntaf - o sgwrs dosbarth cyfan i weithgareddau grŵp bach</p> </div>	<p>Aros yn y dosbarth gwreiddiol</p> <p>Arsylwi Strategaethau Rheoli Dosbarth Cyfan.</p> <p>Nodi strategaethau allweddol sy'n cael eu defnyddio i gefnogi trefnu a rheoli dysgwyr.</p> <p>Gwneud nodiadau manwl o'r strategaethau a arsylwyd, gwahaniaethu rhwng unigolion, yr effaith y mae strategaethau yn ei chael ar ddysgwyr a dysgu, sut mae dysgwyr yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am ymddygiad a dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu gan weithredu fel Cymhorthydd Addysgu yn ôl cyfarwyddyd y mentor.</p> <p>Nodi enghreifftiau posibl o'r pedwar diben dysgu.</p> <p>Defnyddio camera i ffilmio gwaith disgyblion lle bo'n berthnasol i lythrennedd.</p> <p>Mae Athrawon Cyswllt yn postio eu myfyrdodau (200 gair)</p>

Wythnos 2 (Cam 3)

Arsylwi, cefnogi ac addysgu tîm

DS: Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adran ac amserlen y mentor. Enghraifft yw'r amserlen hon.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Addysgu mewn tîm Gwers wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan y mentor; AC yn cael swyddogaeth gefnogol allweddol, fel cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cymhorthydd Addysgu gydag unigolion.</p> <p>Canolbwyntio ar ddechrau a diwedd gwersi, yn enwedig Asesu ar gyfer Dysgu. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ennyn diddordeb</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob diwrnod mae hyfforddeion yn adfyfrio, cael trafodaeth â mentor lle bo'n bosibl.</p>	<p>Addysgu mewn tîm Gwers wedi'i chynllunio gan y mentor; AC yn cael swyddogaeth gefnogol allweddol, fel cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cymorthyddion Addysgu gydag unigolion.</p> <p>Canolbwyntio ar ddechrau a diwedd gwersi, yn enwedig Asesu ar gyfer Dysgu. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ennyn diddordeb</p> <p>Adfyfrio: Ar ddiwedd pob diwrnod bydd yr hyfforddeion yn adfyfrio gan ddefnyddio'r Craidd Cyfarwyddol fel canolbwynt.</p>	<p>Addysgu mewn tîm Gwers wedi'i chynllunio gan y mentor*; AC yn cael mwy o gyfrifoldeb i addysgu grŵp bach o ddysgwyr;</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: athrawon cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p> <p>AT yn gorffen cynllunio'r dasg addysgu grŵp (gweler Dydd Iau Addysgu Grŵp 1).</p> <p>Mae'r athro cyswllt yn cynllunio ar gyfer addysgu grŵp gyda'r mentor.</p>	<p>Addysgu Grŵp 1 Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r mentor ymlaen llaw. Cynllunio ac addysgu gweithgaredd â ffocws penodol.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon cyswllt yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu</p> <p>Adfyfrio Estynedig (Prynhawn) AC yn adfyfrio ar y dysgu ac yn cynllunio ar gyfer addysgu grŵp 2. Defnyddiwch y Pedwarawd Gwybodaeth i'ch cynorthwyo i adfyfrio ynglŷn â chynllunio ac addysgu a'r effaith a gafodd hyn ar y dysgu.</p> <p>Trafod yr Adfyfrio a chynllun Addysgu Grŵp 2 gyda'r mentor. Cwblhau'r Gwerthusiad yn y dyddlyfr.</p>	<p>Addysgu Grŵp 1 Parhau â'r un grŵp o ddysgwyr. Yn dilyn cyflwyniad ddoe, parhau i ddatblygu dysgu.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon Cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi dysgu.</p> <p>Trafod y gwaith adfyfrio ar addysgu'r dosbarth cyfan fel tîm ac addysgu grŵp 2, cwblhau Gwerthusiad yn y dyddlyfr. Gyda'r mentor, nodi ail grŵp i ail-wneud y broses yr wythnos nesaf.</p>

Cyfarfod â'r mentor a'u cyfrifoldebau

Rhannu a thrafod cynlluniau ar gyfer addysgu gwersi mewn tîm/grŵp.

Sicrhau bod athrawon cyswllt wedi deall y gweithgareddau sbardun/y tasgau addysgu grŵp.

Gwirio cynlluniau ar gyfer tasgau addysgu.

Ystyried arsylwadau ynghylch Cymraeg Pob Dydd (arsylwi grwpiau mewn blynyddoedd eraill).

Trafod a nodi ail grŵp o ddysgwyr i ail-wneud proses addysgu grŵp 1 a 2.

Briffio'r athrawon cyswllt ar y gwersi sydd i'w haddysgu dros yr wythnosau nesaf, gan amlygu pa wersi y mae'r athrawon cyswllt yn llwyr gyfrifol amdanynt.

Briffio'r AC ynglŷn ag Addysgu Grŵp a'r Astudiaeth Gwers yr wythnos nesaf.

[Cysylltu â'r Tiwtor Cyswllt os oes unrhyw destun pryder](#)

Mwy o gefnogaeth: dylai'r mentor benderfynu cyn gynted â phosibl a oes angen cefnogaeth estynedig ar yr athro cyswllt.

Wythnos 3 a 4 (Diwrnod Ysgol Arweiniol wythnos 4) (Cam 3)

Arsylwi, cefnogi, cynllunio ac addysgu tîm

DS: Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adran ac amserlen y mentor. Enghraifft yw'r amserlen hon.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher - Dydd Gwener
<p>Addysgu Grŵp 1 Nodi grŵp o ddysgwyr gyda'r mentor ymlaen llaw. Cynllunio ac addysgu gweithgaredd â ffocws penodol.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon cyswllt yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y buont yn ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Defnyddiwch y Pedwarawd Gwybodaeth i'ch cynorthwyo i adfyfrio ynglŷn â chynllunio ac addysgu a'r effaith a gafodd hyn ar y dysgu.</p> <p>Adfyfrio Estynedig (Prynhawn) AC yn adfyfrio ar y dysgu ac yn cynllunio ar gyfer addysgu grŵp 2.</p> <p>Trafod yr Adfyfrio a chynllun Addysgu Grŵp 2 gyda'r mentor.</p>	<p>Addysgu Grŵp 1 Parhau â'r un grŵp o ddysgwyr. Yn dilyn cyflwyniad ddoe, parhau i ddatblygu dysgu.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: Athrawon Cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi dysgu.</p> <p>Defnyddiwch y Pedwarawd Gwybodaeth i'ch cynorthwyo i adfyfrio ynglŷn â chynllunio ac addysgu a'r effaith a gafodd hyn ar y dysgu.</p> <p>Trafod yr Adfyfrio a chynllun Addysgu Grŵp 2 gyda'r mentor. Cwblhau'r Gwerthusiad yn y dyddlyfr.</p>	<p>Gwneud y Gweithgaredd Astudiaeth Gwers, mae'r mentor yn dysgu hanner y dosbarth ac yna bydd yr AC yn dysgu hanner olaf y dosbarth os yn bosibl.</p> <p>AC yn dechrau cyflwyno i'r dosbarth dosbarth cyfan a chymryd cyfrifoldeb dros strwythurau allweddol o fewn y drefn ddyddiol. (cofrestru, darllen tawel, ymarfer corff ac ati).</p> <p>Dechrau cymryd rhan yn y 'cyfrifoldebau y tu allan i'r ystafell ddosbarth (symud o amgylch yr adeilad / goruchwyllo amser egwyl, goruchwyllo'r ystafell gotiau ac ati)</p> <p>Arsylwi ymarferwyr - ffocws ar gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Gwers wedi'i chynllunio gan y mentor*; AC yn cael mwy o gyfrifoldeb i addysgu grŵp bach o ddysgwyr;</p> <p>AC yn cynllunio ac yn cyflwyno dau weithgaredd byr i'r dosbarth cyfan i gefnogi lles y dysgwyr (20-30 munud). Defnyddir y gweithgaredd terfynol i gefnogi FfAA 1.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: athrawon cyswllt yn adfyfrio ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddwedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu. Cwblhau'r Gwerthusiadau yn y dyddlyfr.</p>

Cyfarfod â'r mentor a'u cyfrifoldebau

Rhannu a thrafod cynlluniau ar gyfer gwersi addysgu grŵp/astudiaeth gwers.

Sicrhau bod athrawon cyswllt wedi deall y gweithgareddau sbardun/y tasgau addysgu grŵp.

Gwirio cynlluniau ar gyfer tasgau addysgu.

Ystyried arsylwadau ynghylch Cymraeg Pob Dydd (arsylwi grwpiau mewn blynyddoedd eraill).

Trafod a nodi ail grŵp o ddysgwyr i ail-wneud proses addysgu grŵp 1 a 2.

Briffio'r athrawon cyswllt ar y gwersi sydd i'w haddysgu dros yr wythnosau nesaf, gan amlygu pa wersi y mae'r athrawon cyswllt yn llwyr gyfrifol amdanynt.

Briffio athrawon cyswllt ynghylch addysgu mewn tîm ar gyfer yr wythnos nesaf.

Cysylltu â'r Tiwtor Cyswllt os oes unrhyw destun pryder

Mwy o gefnogaeth: dylai'r mentor benderfynu cyn gynted â phosibl a oes angen cefnogaeth estynedig ar yr athro cyswllt.

Wythnosau 5-7 (Cam 4)

Bydd Athrawon Cyswllt yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am tua 8 awr o wersi/ddarpariaeth.

Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor. Mae'r amserlen isod yn enghraifft.

Diwrnodau'r Ysgol Rhwydwaith	Mentor
<p>Cynllunio a chyflwyno gwersi grŵp/hanner dosbarth a dosbarth cyfan sy'n cynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd.</p> <p>Cynllunio cyfres o 3 chyfle dysgu gwahaniaethol a cham wrth gam, gan sicrhau bod y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn amlwg. Gellir eu cyflwyno i grwpiau / hanner dosbarth / dosbarth cyfan.</p> <p>Dylai'r AC gynllunio ac addysgu o leiaf 8 awr o sesiynau dosbarth cyfan cyn gynted â phosibl. Os nad yw hyn yn bosibl erbyn diwedd wythnos 6, dylid gweithredu'r cynllun cefnogaeth estynedig.</p> <p>Cynllunio'n annibynnol gyda chefnogaeth mentor</p> <p>AC yn parhau i gymryd cyfrifoldeb dros strwythurau allweddol o fewn y drefn ddyddiol. (cofrestru, darllen tawel, ymarfer corff ac ati).</p> <p>AC yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu ymhellach y cyfleoedd Cymraeg e.e. sesiwn Helpwr Heddiw</p> <p>AC yn parhau i gymryd rhan yn y 'cyfrifoldebau y tu allan i'r ystafell ddosbarth' (symud o amgylch yr adeilad / goruchwyllo amser egwyl, goruchwyllo'r ystafell gotiau ac ati)</p> <p>Arsylwi ymarferwyr. - ffocws ar strategaethau gwahaniaethu ac ymddygiad ar gyfer dysgu.</p> <p>Wythnos 6 - FfAA 2 - Arsylwi gwersi gyda'r Tiwtor Cyswllt yn bosibl.</p> <p>Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar anghenion dysgu ychwanegol, ecwiti, asesu ar gyfer dysgu, (8 awr)</p> <p>Arsylwi a dadansoddi cyfres cysylltiedig o wersi a arsylwyd - gan gynnwys Asesu ar gyfer Dysgu, delweddau o waith disgyblion, adfyfrio ar addysgeg a ddefnyddiwyd.</p> <p>Parhau i adfyfrio gan ddefnyddio teclyn o'ch dewis er cefnogaeth, ar ddiwedd y dydd ac uwchlwytho asedau a thystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p> <p>Cefnogaeth estynedig: dylai'r mentor benderfynu cyn gynted â phosibl a oes angen cefnogaeth estynedig ar yr AC, ac yn bendant o fewn cam 4.</p>	<p>Cyfarfod mentor 4 Arsylwi, adolygu a llenwi Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 1) a gosod targedau Gwirio'r Dyddlyfr Proffesiynol Gwirio fod cynllunio a gwerthusiadau yn cael eu cwblhau. Trefnu arsylwi ar y cyd ar gyfer FfAA 2/3 gyda'r Tiwtor Cyswllt.</p> <p>Wythnos 5 - Adolygiad cyntaf o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol gan y Tiwtor Cyswllt: gwirio bod FfAA 1 yn cael ei huwchlwytho a sicrhau bod yr AC yn uwchlwytho unrhyw dystiolaeth arall i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol</p> <p>Cyfarfod mentor 5 Gwirio'r Dyddlyfr Proffesiynol Gwirio'r cynllunio a'r gwerthusiadau.</p> <p>FfAA 2, hwn neu FfAA 3 i fod yn arsylwi ar y cyd.</p>

Wythnosau 8-10 (Diwrnod Ysgol Arweiniol wythnos 8) (Cam 4)

Bydd yr AC yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am tua 10-12 awr o wersi/o'r ddarpariaeth.

Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r ysgol, y dosbarth ac amserlen y mentor. Mae'r amserlen isod yn enghraifft.

<p>Diwrnodau'r Ysgol Rhwydwaith Proffesiynol ac Addysgeg (Astudiaeth gwrs) 25.02.2022 (WYTHNOS 8)</p>	<p>Mentor</p>
<p>Efallai y bydd cyfle yn codi i gwblhau Astudiaeth Gwrs arall</p> <p>Cynllunio a chyflwyno gwrsi sy'n cynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd.</p> <p>Dylai'r AC addysgu 8-12 awr gyda'r dosbarth cyfan mor fuan â phosib.</p> <p>1) Gydag dim ond ychydig o gefnogaeth gan y mentor, ymgysylltu â'r dysgwyr (Llais disgyblion) a chynllunio 3 chyfle dysgu (o fewn y pwnc, o lyfr/profiad dysgu ac ati)</p> <p>2) Cynllunio cyfres o gyfleoedd dysgu gwahaniaethol a cham wrth gam, gan sicrhau bod y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn amlwg, gan gyflwyno i'r dosbarth cyfan.</p> <p>Cynllunio'n annibynnol gyda chefnogaeth/goruchwyliaeth y mentor</p> <p>FfAA 3 - Arsylwi gwrs gyda'r Tiwtor Cyswllt yn bosibl (os na wnaed ar gyfer FfAA 2).</p> <p>AC yn parhau i gymryd cyfrifoldeb dros strwythurau allweddol o fewn y drefn ddyddiol. (cofrestru, darllen tawel, ymarfer corff ac ati).</p> <p>AC yn parhau i gymryd rhan yn y 'cyfrifoldebau y tu allan i'r ystafell ddosbarth' (symud o amgylch yr adeilad / goruchwyllo amser egwyl, goruchwyllo'r ystafell gotiau ac ati).</p> <p>AC yn cynllunio gweithgaredd Cymraeg ac yn ei gyflwyno bob dydd (os yn bosibl) i grŵp / hanner dosbarth/dosbarth cyfan. Os yn bosibl, AC yn cynllunio ac yn cyflwyno gwrs Gymraeg.</p> <p>Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan ganolbwyntio ar ADY, MAT, ymddygiad ar gyfer dysgu (8 awr).</p> <p>Parhau i adfyfrio ar ddiwedd y dydd ac uwchlwytho asedau a thystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.</p> <p>Cefnogaeth estynedig: dylai'r mentor benderfynu cyn gynted â phosibl a oes angen cefnogaeth estynedig ar yr AC, ac yn bendant o fewn cam 4.</p>	<p>Cyfarfod mentor 4 Arsylwi, adolygu a llenwi Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA 2) a gosod targedau Gwrio'r Dyddlyfr Proffesiynol Gwrio'r cynllunio FfAA 3 - arsylwi ar y cyd os wnaed hynny ar gyfer FfAA 2. Cyfarfod â'r Tiwtor Cyswllt i drafod Ffurflen Asesu Addysgeg 2/3 i baratoi ar gyfer cwblhau'r Adroddiad Profiad Ysgol.</p> <p>Wythnos 8/9 Tiwtor Cyswllt - Adolygiad o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol: gwrio bod FfAA 2/3 yn cael ei huwchlwytho a sicrhau bod yr AC yn uwchlwytho unrhyw dystiolaeth arall i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol</p> <p>Cyfarfod mentor 5 Gwrio'r Dyddlyfr Proffesiynol Gwrio'r cynllunio a'r gwerthusiadau. Cyfarfod â'r Tiwtor Cyswllt i drafod Ffurflen Asesu Addysgeg 2/3 i baratoi ar gyfer cwblhau'r Adroddiad Profiad Ysgol. Diwedd wythnos 8. Cwblhau a rhannu'r Adroddiad Profiad Ysgol gyda'r Tiwtor Cyswllt a'r AC er mwyn cael llofnod cadarnhau.</p>

Wythnos Bontio

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau
-----------	-------------	--------------	----------

<p>Croeso gan y Pennaeth a diogelu hanfodol Iechyd a Diogelwch (Mentor Arweiniol Rhwydwaith)</p> <p>Taith o amgylch yr ysgol gyda ffocws ar yr ysgol fel cymuned.</p> <p>Cyflwyniad ar ethos ac arferion yr ysgol. Cwrdd â phennaeth blwyddyn 7 i drafod pontio (<i>gellir gosod hyn yn unrhyw le yn ystod y tri diwrnod</i>)</p> <p>Arsylwi dosbarthiadau blwyddyn 7 gan ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dilyniant (beth maent yn ei ddysgu?) • Addysgeg (sut maent yn dysgu?) <p>Adfyfrio mewn parau. Nodi goblygiadau i athrawon blwyddyn 6.</p>	<p>Cyfarfod â grŵp ffocws bach o flwyddyn 7</p> <p>Cynllunio cwestiynau i'w gofyn i ddisgyblion blwyddyn 7 gan gynnwys:</p> <p>Beth aeth yn dda pan wnaethoch chi symud ysgol?</p> <p>Beth sydd angen ei wella?</p> <p>Dylai ffocws y cwestiynau fod ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y dysgu • Ffrindiau ac amgylchedd cymdeithasol • Yr amgylchedd corfforol • Y cwricwlwm • Her • Paratoi yn yr Ysgol Gynradd ar gyfer y pontio <p>Arsylwi dau ddsbarth blwyddyn 7. Ffocws ar gyrhaeddiad, her, cefnogaeth a gwahaniaethu</p> <p>Adfyfrio mewn parau. Nodi goblygiadau i athrawon blwyddyn 6.</p>	<p>Ffocws ar asesu - <i>A yw'n bosibl cwrdd ag uwch arweinydd sy'n gyfrifol am asesu ac olrhain?</i></p> <p><i>Sut mae ysgolion yn olrhain dilyniant o CA2 i CA3?</i></p> <p>Arsylwi dwy wers blwyddyn 7 (dilyn un disgybl)</p> <p>Ffocws ar asesu yn yr ystafell ddsbarth - sut mae hyn yn cymharu â'r arfer ym mlwyddyn 5/6?</p> <p>Adfyfrio mewn parau. Nodi goblygiadau i athrawon blwyddyn 6. Adfyfrio ar natur addysgeg a chwricwlwm uwchradd</p>	<p>Adfyfrio yn y SAU</p> <p>Adolygiad o gyfoethogi yn yr uwchradd. Beth yw'r prif broblemau i athrawon blwyddyn 6 (a blwyddyn 7)?</p> <p>Sut all ysgolion ac athrawon cynradd wneud i'r pontio fod yn fwy effeithiol?</p>
--	---	--	--